

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Sadwrn 11eg  
Mai 2013 yn nhafarn y Cross Foxes, Dolgellau**

**Presennol:** Presennol: Rhys (RD) - Cadeirydd ,Anita (AD),Iolo ap Gwyn(IAG), Richard(RR), Siân (SS),Sioned (SLJ), Iolo (IPR),Eryl (EO), Gareth (GER)

**Ymddiheuriadau:** Dewi ,Mark, John

1.	<p><b><u>COFNODION</u></b></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Ionawr 2013 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2013</u></p> <p>Adroddodd SS yn y bydd John Parry yn rhoi darlith gyntaf y Clwb ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych am 4 o'r gloch brynhawn Mercher 7fed Awst 2013. Bydd John yn son am ei deithiau yn Nepal. Bydd SS yn trefnu cael bwrdd yn y babell i arddangos deunydd cyhoeddusrwydd y Clwb.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn i SS drefnu taflenni flyers maint A5 a phosteri A4 i hysbysebu'r ddarlith ar y maes</li> <li>• Gofyn i RD a GER fod yn gyfrifol am ddsbarthu'r taflenni ar y maes</li> <li>• Gofyn i IPR gadarnhau gyda Clive pa ddeunydd cyhoeddusrwydd sydd ganddo yn y storfa yng Nghaeathro y gellid ei ddefnyddio ar y bwrdd yn y babell.</li> </ul>	<p>SS</p> <p>RD/ GER/ IPR</p>
2	<p><b><u>GWEFAN Y CLWB</u></b></p> <p>Cafwyd amlinelliad o strwythur presennol y wefan gan IaG.</p> <p>Pethau a ystyriwyd :</p> <p>Roedd cytundeb bod angen rhoi sylw i dudalen gartref y wefan gan mai dyma'r dudalen sy'n cyfleu delwedd gyhoeddus y Clwb ac yn fan gwerthu'r Clwb i ddarpar aelodau.</p> <p>Dylid symleiddio'r dudalen gartref a chanolbwyntio ar rai pethau arni a bod cysylltiad oddi yno wedyn i'r holl wybodaeth sydd yn cael ei gadw ar y wefan trwy wahanol haenau tu ôl i'r dudalen gartref</p> <p>Dylai fod cysylltiad clir o'r dudalen gartref i rai pethau megis y rhaglen gyfredol a sut i ymaelodi</p> <p>Bod unrhyw luniau ar y dudalen gartref yn adlewyrchu natur egniol a heriol rhai o weithgareddau'r clwb</p> <p>Defnyddio mwy ar y gweplyfr i hyrwyddo gweithgareddau'r clwb e.e. gyrru negeseuon i ffrindiau'r safle i'w hatgoffa o'r daith nesaf</p> <p>Bod angen ystyried os oes ar IaG angen cymorth gyda'r gwaith ar y safle we ac wrth drosglwyddo gwybodaeth o'r safle i'r Gweplyfr.</p> <p>Bod angen ystyried cael trefn gyda'r adroddiadau ar deithiau ar y safle We fel bod yna ddealltwriaeth y bydd yr adroddiad a nifer penodol o luniau yn mynd ar y safle ac os mwy o luniau wedi eu derbyn , eu bod yn cael eu gosod ar feddalwedd bwrpasol e.e. Flickr</p>	

	<p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod aelodau'r pwyllgor yn cael golwg ar wahanol safleoedd gwe, yn hel syniadau a gyrru awgrymiadau mewn dogfen Word neu ffurf gyffelyb i IaG erbyn diwedd Mai</li> <li>• Byddai IaG yn paratoi gwahanol opsiynau a'u e-bostio i aelodau'r pwyllgor roi barn arnynt</li> <li>• Byddai angen wedyn dod a'r mater gerbron y pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ym Medi i wneud penderfyniad terfynol</li> </ul>	PAWB / IAG
3	<p><b><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></b></p> <p>Adroddodd EO y byddai yn cychwyn yn fuan ar drefnu rhaglen weithgareddau am y cyfnod Awst i Ragfyr. Bydd yn e-bostio aelodau'r pwyllgor ac eraill sydd wedi arwain teithiau yn y gorffennol i ofyn am syniadau</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llongyfarch EO am ei waith trylwyr yn rhoi ei raglen gyntaf at ei gilydd</li> <li>• Gofyn i RD gael gair ag Arwel i drafod sefyllfa'r rhaglen ddringo</li> <li>• Y cynhelir penwythnos y Clwb ym mis Medi eleni yn Ardal y Llynnoedd</li> <li>• Nodi bod EO yn gallu ymdopi a'r gwaith cydgordio ond gofyn iddo gysylltu â RD pe byddai mewn sefyllfa o fod angen cymorth i lunio'r rhaglen</li> <li>• Bod ambell i daith ar y Sul yn hytrach na dydd Sadwrn</li> <li>• Cael amrywiaeth o deithiau o ran pellter ar Sadyrnau fel y gallai rhai apelio at y criw dydd Mercher a chael dwy daith ambell Sadwrn yn cychwyn o'r un man ond o wahanol hyd os yn ymarferol i wneud hynny.</li> <li>• Bydd gan y Clwb daith gerdded yn ardal yr Eisteddfod Genedlaethol, i'w chynnal ar y dydd lau hefo RR yn trefnu</li> <li>• Cadarnhau hefo Maldwyn os yw'n dal yn fodlon trefnu wythnos flynyddol y Clwb yn yr Alban</li> <li>• Bydd RD yn trefnu trip i'r Iwerddon ym mis Mai 2014</li> <li>• Bod angen ystyried yr angen i gael is-arweinyddion ar deithiau'r Clwb</li> <li>• Dylid ystyried cael penwythnos yn ardal Dolgellau/Machynlleth ar gyfer rhaglen Gwanwyn 2014 a fyddai'n gyfle i aelodau'r de a'r gogledd ddod at ei gilydd</li> </ul>	EO
4	<p><b><u>AELODAETH Y CLWB</u></b></p> <p>Trafodwyd ffyrdd y gellid eu hystyried i ehangu apêl y Clwb ymysg pobl ifanc gyda'r nod o geisio denu aelodau newydd i'r Clwb er mwyn sicrhau ei ddyfodol Adroddodd RD am ymdrechion a wnaed yn Ne Cymru eisoes..</p> <p>Cytunwyd y byddai RD a AD yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gynnal sesiwn blasu dringo yn y Gogledd ym mis Medi/Hydrif eleni ar gyfer unigolion deunaw oed a throsodd. Dylid hefyd ystyried cael sesiwn blasu mynydda os yn ymarferol</p> <p>Adroddwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf bod yr holiadur wedi ei ddsbarthu i aelodau 'r clwb a bod oddeutu chwarter yr aelodaeth wedi ymateb. Roedd gwybodaeth ddefnyddiol wedi ei dderbyn e.e. ynglŷn ag unigolion a fyddai'n barod i ystyried arwain teithiau ond gyda chefnogaeth yn y lle cyntaf ac ynglŷn â pha weithgareddau yr hoffai'r aelodau weld y Clwb yn eu cynnig yn y dyfodol</p> <p>Cytunwyd y dylid anfon nodyn atgoffa arall i'r aelodau er mwyn ceisio cael mwy o ymateb i'r holiadur ac y gellid adrodd ar y canfyddiadau i'r cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ac o bosib y Cyfarfod Blynyddol</p>	RD/AD       IPR
5	<p><b><u>AELODAETH Y CLWB - TREFNIADAU GWEINYDDOL</u></b></p> <p>Adroddodd GER bod canran o aelodau yn dal i dalu eu tal aelodaeth drwy sieciau. Nid</p>	

	<p>oedd hynny ynddo ei hun yn broblemus ond beth oedd yn creu problemau iddo oedd bod rhai yn hwyr yn gyrru eu taliadau ato ac yn creu problemau gweinyddol wrth ddsbarthu cardiau aelodaeth a rhoi gwybodaeth am aelodaeth y Clwb i'r CMP.</p> <p>Roedd hefyd yn bryderus bod oddeutu 30 o aelodau'r clwb heb gyfeiriad e-bost a heblaw am y llythyr ddechrau'r flwyddyn gyda'r cerdyn aelodaeth a rhaglen Mawrth - Gorffennaf, doeddynt ddim yn derbyn gwybodaeth am weithgareddau'r clwb.</p> <p>Cytunwyd gofyn i'r ysgrifenyddion/trysorydd gysylltu ag aelodaeth y clwb yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn yn gofyn iddynt ystyried, os nad oeddynt yn gwneud eisoes, talu tal aelodaeth y clwb trwy orchymyn banc ac yn amlinellu'r manteision iddynt hwy a'r clwb i sicrhau y derbynnir eu tal aelodaeth yn gynt hytrach na hwyrach</p> <p>Parhau a'r drefn o yrru manylion yn electroneg i'r aelodau hynny hefo cyfeiriad e-bost a phostio rhaglenni (a'r holiadur y tro nesaf) i'r aelodau heb gyfeiriad e-bost. Gellid cymryd y cyfle hefyd i ofyn iddynt a oes ganddynt gyfeiriad e-bost yn awr.</p>	<p>IPR/ GER</p> <p>EO/ IPR/ GER</p>
6	<p><b><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2013</u></b></p> <p>Cytunwyd y dylid cynnal Cyfarfod Blynyddol y Clwb eleni yn ardal Y Bala ar nos Sadwrn, 9fed Tachwedd 2013.</p> <p><b>[wedi ei newid i 26 Hydref ar ol ymgynghori pellach yn fuan ar ol y cyfarfod.]</b></p>	IPR
7	<p><b><u>SWYDD IS-GADEIRYDD</u></b></p> <p>Adroddodd SLJ ei bod wedi trafod a RR y posibilrwydd iddo dderbyn y swydd o Is-gadeirydd y Clwb.</p> <p>Cytunwyd y byddai RD yn cadarnhau gyda RR ei fod yn barod i dderbyn y swydd.</p>	RD
8	<p><b><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></b></p> <p>Nodwyd bod gwybodaeth yn cael ei chasglu o'r holiaduron a yrrwyd ynglŷn â diddordeb yr aelodau mewn cael hyfforddiant.</p> <p>Penderfynwyd gofyn i RD wneud ymholiadau i geisio sefydlu beth yw'r sefyllfa bellach ynglŷn a'r gronfa oedd gan y clwb yn y gorffennol i gynorthwyo aelodau gyda'r gost o fynd ar gyrsiau</p>	RD
9	<p><b><u>OFFER</u></b></p> <p>Penderfynwyd gofyn i AD drafod cyflwr y rhaffau a ddefnyddir yn y Gogledd gydag Arwel ac archebu rhai newydd os oes angen.</p>	AD
10	<p><b><u>UNRHYW FATER ARALL</u></b></p> <p>Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed syniad Mari Gwent (merch Llew) i weld y sgysiau y bu ei thad yn eu cynnal ym Mhlas y Brenin yn cael eu hatgyfodi. Roedd y pwyllgor eisoes wedi ystyried syniadau Mari ac wedi datgan ei gefnogaeth</p> <p>Bod Mari hefyd wedi cysylltu ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chyrrff eraill a bod cyfarfod bellach wedi ei drefnu ar gyfer Mai 14eg am 3 y pwn yn Mhlas Tan y Bwlch gyda chynrychiolwyr o'r Parc, Menter Iaith Conwy, Antur Stiniog a Glan-Ilyn yn bresennol. Roedd gwahoddiad i'r Clwb yrru cynrychiolydd i'r cyfarfod hefyd</p> <p>Cytunwyd gofyn i SS fynychu'r cyfarfod ar ran y Clwb ac adrodd yn ôl ar unrhyw</p>	

	ddatblygiad.	SS
11	<p><b><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></b></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
12	<p><b><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></b></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
13	<p><b><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></b></p> <p>Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Medi.</p> <p>Rhagwelwyd y byddai angen i'r cyfarfod gael ei gynnal eto yn ardal Dolgellau er mwyn cael cyfle i drafod y wefan. Dylid hefyd ystyried cael y cyfarfod yn ystod yr wythnos os yn ymarferol</p> <p>Codwyd y posibilrwydd hefyd o allu defnyddio offer technoleg gwybodaeth i hwyluso cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgor</p>	IPR